
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Polisi Symudedd Rhyngwladol

## 1. Cyflwyniad

Yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol i ryngwladoli a chreu dinasyddion byd-eang, mae gan y Brifysgol raglen astudio dramor sy'n bodoli ers tro ynghyd â nifer o raglenni cyfnewid dwyffordd â sefydliadau partner. Mae gan y Brifysgol gysylltiadau ag UDA, Canada, Hong Kong a Malaysia. Mae ganddi rai yn Ewrop, a ddatblygwyd yn flaenorol trwy'r rhaglen Erasmus+ ac yn Tsieina trwy'r rhaglen Astudiaethau Tsieineaidd.

Trwy gynlluniau symudedd rhyngwladol newydd a ariannwyd gan y llywodraeth (e.e. Turing a Thaith), mae cyfle hefyd i fyfyrwyr dreulio cyfnod byrrach dramor.

Mae astudio dramor yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu safbwyntiau byd-eang. Mae'n gwella cyflogadwyedd ac yn cynorthwyo myfyrwyr drwy ddatblygu amrywiaeth o rinweddau a sgiliau, gan gynnwys ym maes cyfathrebu trawsddiwylliannol. Gall cynlluniau cyfnewid myfyrwyr atgyfnerthu cydweithrediadau addysgol ac ymchwil a chynorthwyo gyda meithrin perthnasoedd strategol a chynaliadwy wrth gryfhau proffil byd-eang y Brifysgol. Mae myfyrwyr cyfnewid sy'n dod i'r Drindod Dewi Sant yn cynyddu amrywiaeth y corff myfyrwyr, yn dod â gwahanol safbwyntiau ac yn cyfrannu i ryngwladoli'r Brifysgol.

## 2. Diben

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r prosesau sydd wedi eu sefydlu i ddiogelu ansawdd partneriaethau symudedd rhyngwladol a phrofiad myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant sy'n cymryd rhan mewn cyfle symudedd rhyngwladol.

## 3. Cydymffurfiaeth

Datblygwyd y datganiad polisi yng nghyd-destun y disgwyliadau a nodwyd yng Nghod Ansawdd y DU yr ASA ar gyfer Addysg Uwch, ac yn enwedig Cyngor ac Arweiniad: Partneriaethau, sy'n cynnwys astudio dramor. Mae'r polisi hefyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys cyfraith defnyddwyr.

## 4. Perthynas â strategaethau a rheoliadau eraill

Mae'r polisi symudedd allanol yn rhan o'r Strategaeth Addysg Fyd-eang ac mae'n gysylltiedig â phennod 11 yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (LlAA).

Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am safonau academaidd ac ansawdd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn ei henw ac mae'r llawlyfrau a'r templedi canlynol wedi eu llunio i ddiogelu ansawdd y profiad symudedd rhyngwladol.

Mae'r llawlyfrau a'r templedi canlynol wedi'u sefydlu:

- Llawlyfr Go Global
- Templed y Cytundeb Dysgu
- Templed cytundeb y grant
- Dogfennau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ar gyfer myfyrwyr symudedd rhyngwladol
- Briffio gwybodaeth cyn gadael
- Tystiolaeth cyrraedd
- Tystiolaeth presenoldeb
- Taflen dychwelyd adref

## 5. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn **gysylltiedig â** chyfleoedd symudedd rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant:

a) Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant sydd wedi cofrestru gyda'r Brifysgol ar gampysau Caerfyrddin, Abertawe, Llanbedr Pont Steffan, Llundain, Birmingham a Chaerdydd. Nid yw myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda phartneriaid wedi eu cynnwys yn y polisi hwn.
b) Mae'r polisi yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd symudedd rhyngwladol, gan amrywio o astudio dramor, interniaethau, cyfleoedd symudedd rhithwir, rhaglenni byr (haf).
c) Gall yr hyd amrywio rhwng semester a lleiafswm o bythefnos.
d) Gall y polisi hwn gynnwys cyfleoedd rhyngwladol sydd â chredydau ac sydd heb gredydau, a chyfleoedd wedi eu hariannu a heb eu hariannu fel ei gilydd.

## 6. Y Bwrdd Symudedd Rhyngwladol

Mae'r **Bwrdd Symudedd Rhyngwladol** yn adrodd i'r Pwyllgor Materion Rhyngwladol a Phartneriaethau Cydweithredol (PMRhPhC / IACPC). Mae'r cylch gorchwyl wedi'i gynnwys ym Mhennod 2 y LlAA.

## 7. Datblygu ac adolygu trefniadau symudedd rhyngwladol

Mae Academi Fyd-eang Cymru yn gweithio'n agos gydag athrofeydd i sefydlu cyfleoedd symudedd rhyngwladol. Wrth asesu unrhyw gyfleoedd, cymerir gofal bod y cyfle arfaethedig:

- a) yn gydnaws ag amcanion academaidd eu disgyblaeth ac yn gwneud cyfraniad clir a phendant i ddeilliannau dysgu'r rhaglen,
- b) yn gwella'n sylweddol brofiad eu myfyrwyr, ac

- c) yn debygol o fod mewn partneriaeth ddwyffordd go iawn, sy'n unol â nodau strategol amcanion y Strategaeth Addysg Fyd-eang a'r cynlluniau symudedd rhyngwladol y mae'r Brifysgol yn rhan ohonyn nhw.

Mae gofyn bod pob cyfle symudedd rhyngwladol wedi'i gymeradwyo'n ganolog cyn i unrhyw fyfyrwyr deithio dramor ar gyfer rhaglen.

Ar ôl asesiad cychwynnol fel y nodir uchod, cwblheir nifer o wiriadau gan Academi Fyd-eang Cymru sy'n cynnwys gwirio:

- ansawdd academaidd y sefydliad partner arfaethedig;
- addasrwydd portffolio academaidd y sefydliad partner arfaethedig;
- bod cyfleusterau, adnoddau a threfniadau cymorth myfyrwyr yn y sefydliad partner arfaethedig;
- ansawdd ac uniondeb trefniadau'r partner arfaethedig ar gyfer trosglwyddo asesiadau a chredydau;
- unrhyw broblemau iechyd a diogelwch;
- strwythurau Addysg Uwch, dulliau a thybiaethau sy'n gweithredu yn y sefydliad partner / y wlad sy'n derbyn;

Ar ôl cwblhau'r asesiadau hyn, cyflwynir ffurflen i'r Bwrdd Symudedd Rhyngwladol i ofyn am gymeradwyaeth y bartneriaeth. Os cymeradwyir hon, datblygir cytundebau ffurfiol gan Academi Fyd-eang Cymru.

Caiff pob partneriaeth symudedd rhyngwladol eu hadolygu'n flynyddol i ystyried eu heffeithiolrwydd. Bydd adborth myfyrwyr yn rhan o adolygiad o'r fath. Gellir terfynu partneriaeth o ganlyniad i adolygiad o'r fath gan Academi Fyd-eang Cymru.

CCaiff aelod o'r staff academaidd, gweinyddol neu gymorth gynnal yr ymweliad safle hwn ar yr amod eu bod yn cael eu briffio ar ofynion yr ymweliad. Dylid rhoi gwybod i Academi Fyd-eang Cymru am unrhyw ymweliad safle cyn ei gynnal. Bydd adroddiadau ar ymweliadau yn dod i'r Bwrdd Symudedd Allanol.

## 8. Trosi Graddau

Cyn ymadael, rhaid i'r athrofa gadarnhau bod y dewis dros dro o fodylau yn y sefydliad sy'n derbyn wedi'i gymeradwyo a'i fod yn bodloni pob un o ddeilliannau dysgu modylau astudio annibynnol rhyngwladol/gwerthoedd credydau Y Drindod Dewi Sant.

Os caiff graddau eu trosi:

a. bydd methodoleg trosi graddau wedi'i thrafod â'r myfyriwr;
b. bydd y myfyriwr yn deall y fethodoleg y tu ôl i'r dull o drosi'r graddau a sut y'i defnyddir i drosi credydau'r sefydliad partner yn ôl i gredydau yn y Drindod Dewi Sant;
c. trwy gytuno â'r fethodoleg trosi graddau, bydd myfyriwr yn deall na fydd yn gallu herio'r dull o'i defnyddio maes o law.

Mae'r athrofa'n gyfrifol am ddefnyddio'r fethodoleg o drosi graddau ac am rannu gwybodaeth, fel y bo'n briodol, ag arholwyr allanol. Eir ag unrhyw gredydau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â chyfle symudedd rhyngwladol drwy'r bwrdd arholi perthnasol.

Mae'r Bwrdd Symudedd yn ystyried canlyniadau bob blwyddyn ar draws athrofeydd i adfyfyrio ar effeithiolrwydd ei raglenni (e.e. cyfwerthedd marciau).

## 9. Cyfrifoldebau

**Academi Fyd-eang Cymru:**

- Asesu a chymeradwyo pob cyfle symudedd rhyngwladol trwy'r Bwrdd Symudedd Rhyngwladol;
- Datblygu a drafftio pob cytundeb symudedd rhyngwladol;
- Y PIG Cysylltiol (Ymgysylltu Byd-eang) a chynrychiolydd awdurdodedig y sefydliad partner yn llofnodi pob cytundeb ffurfiol.
- Monitro a rheoli'r holl bartneriaethau rhyngwladol ar lefel sefydliadol;
- Hyfforddiant staff academaidd newydd sy'n cydlynu cyfleoedd symudedd rhyngwladol;
- Dewis ymgeiswyr priodol mewn cysylltiad â'r Athrofa;
- gwybodaeth am hawliau myfyrwyr a chyfrifoldebau yn ystod symudedd, gan gynnwys y broses gwynion;
- gwybodaeth am wasanaethau cymorth myfyrwyr tra byddant dramor, gan gynnwys ffynonellau cymorth lleol;
- gwybodaeth am brosesau asesu, rheolau ynghylch dilyniant, trosi graddau a throsglwyddo credydau;
- Cysylltiad rhwng Gwasanaethau Myfyriwr yn Y Drindod Dewi Sant a'r sefydliad partner i sicrhau bod myfyrwyr sydd ag anableddau datganedig yn cael cymorth priodol tra byddant dramor.
- Adolygu'n flynyddol broffiliau myfyrwyr sy'n mynd dramor.

**Athrofeydd:**

- Cyfrifoldeb cyffredinol am brofiad academaidd myfyrwyr tra byddant ar gyfle symudedd rhyngwladol;
- Cefnogi Academi Fyd-eang Cymru wrth ddewis ymgeiswyr priodol;
- Cefnogi unrhyw fyfyriwr na all bellach gyflawni'r deilliannau a asesir yn y lleoliad y cytunwyd arno;
- Enwebu aelod o staff i gydlynu'r cyfle symudedd rhyngwladol a chysylltu'n agos ag Academi Fyd-eang Cymru;
- Llenwi templed y cytundeb dysgu a phob templed perthnasol arall;
- Sicrhau y caiff templedi cytundebau dysgu eu rhannu ag arholwyr allanol:
- Rhannu cyfrifoldeb ag Academi Fyd-eang Cymru ynghylch iechyd a diogelwch myfyrwyr tra byddant dramor;

- Hyrwyddo cyfleoedd symudedd rhyngwladol i fyfyrwyr ac ymgeiswyr.

**Myfyrwyr:**

- Ffurflen gais i'w chyflwyno gyda chopi o drawsgrifiad Y Drindod Dewi Sant;
- Cyfweliad gorfodol cyn mynd dramor;
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd briffio cyn ymadael:
- Briffio iechyd a diogelwch cyn ymadael ac asesiad iechyd a risg i'w gwblhau;
- Cytundeb dysgu wedi'i gwblhau;
- Cadarnhau trefniadau teithio a fisâu;
- Cytundeb grant wedi'i gwblhau os dyfarnir arian i fyfyriwr;
- Tystysgrif cyrraedd wedi'i chyflwyno ymhen pythefnos ar ôl cyrraedd;
- Tystysgrif presenoldeb wedi'i chyflwyno ymhen pythefnos ar ôl ymadael;
- Cyfarfod adolygu lleoliad.

**Cymeradwywyd gan PMRhPhC / IACPC Mawrth 2023**